**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Rhif Cyf. y Papur EUR (2) 04-04**

**Dyddiad:** Dydd Iau 29 Ebrill 2004

**Lleoliad:**

**Teitl:** Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy

**Diben**

Hysbysu'r Pwyllgor a cheisio ei farn ar y cynllun gweithredu drafft.

**Crynodeb/Argymhellion**

Atodir y cynllun gweithredu drafft er mwyn ei drafod ar gais y Pwyllgor, yn dilyn gwahoddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yng nghyfarfod llawn 16 Mawrth i bob Pwyllgor Pwnc ei ystyried.

Bydd cyfnod ymgynghori'r Cynllun drafft yn parhau nes 21 Mai er mwyn rhoi cyfle i'r cynllun gweithredu terfynol gael ei gyflwyno gerbron cyfarfod llawn cyn toriad yr haf.

**Cefndir**

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy diwygiedig, a fabwysiadwyd gan Aelodau Cynulliad yng nghyfarfod llawn 16 Mawrth.

Mae'r Cynllun diwygiedig yn egluro'r weledigaeth y mae'r Cynulliad yn ceisio ei gwireddu; yr egwyddorion yr ydym yn eu dilyn; yr ymrwymiadau y mae'r Cynulliad cyfan yn eu gwneud; a sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad, gyda phartneriaid, yn creu patrwm datblygu mwy cynaliadwy yng Nghymru. Bydd y Cynllun Gweithredu yn nodi yr hyn fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gyflawni eu hymrwymiadau a nodir yn y Cynllun er mwyn darparu newid gwirioneddol. Mae'r Gweinidogion yn gobeithio, unwaith y bydd y Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau, y bydd hefyd yn cael statws atodiad ffurfiol i'w hagenda strategol yn Cymru: Gwlad Well.

**Materion i'w Hystyried**

Gallai'r adran ar 'Cymru: Dinesydd Byd-eang’ sy'n canolbwyntio ar helpu i fynd i'r afael â rhwystrau cenedlaethol at ddatblygu cynaliadwy a gweithio gyda rhanbarthau eraill a gwahanol fathau o

lywodraethau er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau, fod o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Ni ofynnir i'r Pwyllgor wneud unrhyw benderfyniad o ran gwariant mewn ymateb i'r papur hwn, ond efallai y byddant yn dymuno nodi'r sefyllfa ariannol mewn cysylltiad â'r cynigion sydd yn y Cynllun Gweithredu drafft. Gellir bodloni'r ymrwymiadau arfaethedig yn y Cynllun drafft sy'n rhan o'r gyllideb Datblygu Cynaliadwy yn fewnol. Fel arall, mae'r Cynllun wedi'i ddrafftio i fod yn gynwysadwy o fewn adnoddau presennol. (Gall cynlluniau peilot arfaethedig gefnogi achos am wariant ychwanegol, ond fe fyddai hynny'n fater i'w benderfynu ar wahân yn ddiweddarach yng nghyd-destun cylchoedd cynllunio'r dyfodol). Byddai ymrwymiadau penodol yn awgrymu cost uned gychwynnol uwch o fewn y rhaglen berthnasol, i gynhyrchu arbedion mwy hirdymor. Er mwyn i'r rhain fod yn gynwysadwy o fewn adnoddau cyfredol, byddai'n rhaid i gyfaint yr unedau a brynir gael ei leihau ychydig. Byddai angen ystyried goblygiadau ariannol unrhyw ymrwymiadau ychwanegol cyn y gellid eu cynnwys yn y fersiwn derfynol.

**Themâu Trawsbynciol**

Cyfrannodd llywodraeth leol, y sector busnes a gwirfoddol i'r broses o ymgynghori ar y Cynllun ac fe'u cynrychiolwyd hwy'n dda mewn gweithdai a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr, a chyfrannodd canlyniad y gweithdai hynny at y Cynllun Gweithredu drafft.

Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ar y cynllun gweithredu drafft.

**Enw Carwyn Jones AC**
**Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

Swyddog Cyswllt: Anne Rowlands, Uned Polisi Strategol, ffôn: 3388